**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 30 MEHEFIN 2020 DRWY SKYPE**

**Yn bresennol:** Dr Debra Williams (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling (Dirprwy Gadeirydd); Mr David Powell; Mrs Julie May; Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Josh Lovell (Swyddog Arolygon); Mrs Cath Thomas (Swyddog Cymorth Busnes).

**Amser dechrau:** 09:30
**Amser gorffen:** 11:35

**Ymddiheuriadau:** Dim

## 1. Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

## 2. Brîff y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd wybod y cafwyd trafodaethau da â Llywodraeth Cymru (LlC), ac ar lefel Gweinidogion, ynghylch y Gorchmynion, ond na ddisgwylir i LlC ailgydio yn ei gwaith arferol tan ddiwedd y flwyddyn oherwydd y blaenoriaethau cyfredol o ran COVID-19 a'r economi. Mae gorchymyn Ceredigion gyda'r Gweinidog yn aros am benderfyniad, ac mae gorchmynion Gwynedd a Thorfaen gyda'r isadran gyfreithiol cyn cael eu hanfon at y Gweinidog.

2.2. Bydd y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn symud i'r ail gam yn yr hydref, ac mae'n debygol o gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr. Ataliwyd dau o'r cynigion yn y Bil – sef y gronfa ddata Cofrestru Etholwyr a phleidleisiau i garcharorion.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2020

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar rai mân newidiadau.

## 4. Materion yn codi

4.1. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig 23 Mehefin 2020, gan y PW a nodwyd cynnydd o ran y materion isod.

4.2. **(Mater 1) Y Rhaglen Newid.** Crybwyllodd y PW fod y Rhaglen Newid wedi'i diweddaru â'r camau gweithredu allweddol o Arolwg y Bobl, fel y cytunwyd, ac y bydd y Rheolwr Cyllid yn arwain y Pwyllgor y Bobl newydd.

4.3. **(Mater 2) Holiadur Ôl-arolwg.** Mae rhai holiaduron i'w cwblhau erbyn canol mis Gorffennaf, ond paratowyd dogfen â dolenni i'w dosbarthu.

4.4. **(Mater 3) Cytundeb Fframwaith.** Yn mynd rhagddo. Mae'r Is-adran Noddi yn dal i aros i'r Uned Cyrff Cyhoeddus ddrafftio templed ar gyfer y cytundeb newydd. **Gweithredu** - bydd y PW yn gofyn i'r Pennaeth Busnes ddrafftio cytundeb wedi'i addasu, a fydd yn cael ei gyflwyno gerbron LIC yn y cyfarfod Cyswllt nesaf.

4.5. **(Mater 4) Cais am Dystiolaeth – Diwygio Etholiadol y Senedd.** Crybwyllodd y PW y gofynnwyd i'r Comisiwn roi tystiolaeth, ond nid oedd modd ateb pob un o'r cwestiynau. **Gweithredu** – bydd y PW yn drafftio ymateb ar gyfer y cyfarfod ym mis Awst, sy'n cyfeirio at bolisi staff. Bydd y PW hefyd yn anfon yr holiadur at aelodau'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ac yn defnyddio costau'r Comisiwn Ffiniau i Gymru.

4.6. **(Mater 5) Ymgynghoriad – Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020. Gweithredu** – bydd y PW yn drafftio ymateb ar gyfer y cyfarfod ym mis Awst.

4.7. **(Mater 6) Cysylltu â Chynghorau (Cyfnodau Ymgynghori a Ohiriwyd).** Crybwyllodd y PW fod hyn wedi'i gwblhau a bod y Comisiwn ar y trywydd iawn o ran yr ymgynghoriadau a ohiriwyd. Y Cynghorau dan sylw yw Caerdydd, Caerffili, Wrecsam a Bro Morgannwg.

## 5. Ymgynghoriad Cyn-arolwg Sir Fynwy

5.1. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig 23 Mehefin 2020, gan y SA a **nodwyd** ei gynnwys.

5.2. **Nodwyd** bod yr ymateb gan Gyngor Sir Fynwy yn ymateb gan weithgor trawsbleidiol, ac y rhoddwyd gwybod i Gynghorwyr y gallant ymateb i'r Comisiwn yn unigol, os hoffent wneud hynny.

5.3. **Nodwyd** bod Un Llais Cymru wedi gofyn i'r Comisiwn gynnal arolwg cymunedol o'r newydd, ond y Prif Gyngor yn unig all gyflwyno'r cais hwn i'r Comisiwn, neu drwy gyfarwyddyd gan y Gweinidog. Hefyd, nid oes unrhyw gapasiti yn yr amserlen gyfredol i gynnal unrhyw arolwg arall y tu allan i ERP 2017. Cytunwyd y byddai'r PW yn drafftio ymateb i Un Llais Cymru, gan gyfeirio at Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, ac yn anfon copi ohoni drwy'r e-bost at Aelodau erbyn 1 Gorffennaf

ar gyfer sylwadau.

5.4. **Cytunwyd** y dylai'r Comisiwn ailedrych ar y dystiolaeth yn ymwneud â chamau gweithredu *ultra vires*, bod adroddiad Arolwg Cymunedol Sir Fynwy yn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol 1972, a dylid gwneud penderfyniad cyn diwedd y dydd ar 1 Gorffennaf er mwyn peidio â gohirio'r cyfnod cychwynnol.

5.5. **Cytunwyd** y bydd y PPRh yn drafftio gohebiaeth i'r Cyngor ynghylch dechrau'r cyfnod cychwynnol. Bydd y PPRh hefyd yn drafftio gohebiaeth i'r ymatebwyr i'r Ymgynghoriad Cyn-arolwg, yn esbonio pam mae'r Comisiwn wedi derbyn cynrychiolaeth y Cyngor; pam mae'n gwyro oddi wrth ei ddogfen Polisi ac Arfer; ac yn pwysleisio bod rhaid crybwyll unrhyw faterion yn ymwneud â'r hyn a awgrymwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol a dim hwyrach. Caiff y drafftiau eu hanfon at y Comisiynwyr drwy'r e-bost erbyn 1 Gorffennaf ar gyfer sylwadau.

## 6. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

6.1. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig 23 Mehefin 2020, gan y PPRh a **nodwyd** ei gynnwys.

6.2. **Nodwyd** bod Adroddiad Terfynol Sir y Fflint ac Adroddiad Drafft Ynys Môn wedi'u cyhoeddi ar 16 Mehefin, ac mai dyddiad cau ymgynghoriad Ynys Môn yw 14 Medi.

6.3. **Nodwyd** bod yr ymgynghoriadau drafft a ohiriwyd ar gyfer Caerdydd a Chaerffili wedi ailddechrau ar 15 Mehefin, ac mai'r dyddiadau cau yw 3 a 7 Gorffennaf yn ôl eu trefn. Bydd ymgynghoriad drafft Wrecsam yn ailddechrau ar 1 Gorffennaf ac yn cau ar 13 Gorffennaf. Bydd ymgynghoriad drafft Bro Morgannwg yn ailddechrau ar 1 Medi ac yn cau ar 20 Hydref.

6.4. **Nodwyd** y bydd arolwg cychwynnol Sir Fynwy yn dechrau ar 7 Gorffennaf ac yn cau ar 28 Medi.

6.5. **Cytunwyd** ar y newidiadau canlynol i'r amserlen:

- Bydd cyfarfod y Comisiwn ar ddiwedd mis Gorffennaf yn symud i 5 Awst er mwyn galluogi Swyddogion Arolygon i gyfarfod â'r Comisiynwyr Arweiniol
- Bydd cyfarfod mis Awst yn symud i 15 Medi
- Bydd cyfarfod mis Medi yn symud i 13 Hydref

## 7. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

7.1. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig 10 Mehefin 2020, gan y RhC a **nodwyd** ei gynnwys.

7.2. **Nodwyd** bod yr holl newidiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod blaenorol wedi'u rhoi ar waith.

7.3. **Cytunwyd** y dylid rhoi camau gweithredu lliniarol ychwanegol yn ymwneud ag arolwg Sir Fynwy yn CR3. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- Ceisiwyd cyngor cyfreithiol yn ymwneud ag arolwg Sir Fynwy.
- Cafwyd cyngor i gynnal ymgynghoriad cyn dechrau arolwg Sir Fynwy.
- Sicrhawyd bod rheswm da i ddechrau arolwg Sir Fynwy ar sail y cyngor cyfreithiol a gafwyd.
- Sicrhawyd bod y rhesymau dros symud ymlaen ag arolwg Sir Fynwy wedi'u dogfennu'n ddigonol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw heriau yn y dyfodol.

7.4. **Cytunwyd** y gellid lleihau tebygolrwydd risg CR3 o 4 i 3, gan roi sgôr risg cyffredinol o 12.

## 8. Adroddiad ar y Gyllideb

8.1. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig 30 Mehefin 2020, gan y RhC a **nodwyd** ei gynnwys.

8.2. Nodwyd bod y Comisiwn mewn sefyllfa gyfforddus ar ddiwedd Mai 2020, gyda thanwariant o £25,000 ar gyfer deufis cyntaf y flwyddyn ariannol, yn rhannol oherwydd ad-daliadau Yswiriant Gwladol a Thâl Mamolaeth. Fodd bynnag, byddai'r codiad cyflog o 2.5% i staff a roddwyd ar waith ym mis Mehefin (wedi'i ôl-ddyddio i fis Ebrill) a'r cynnydd dros dro i ffioedd Aelodau (wedi'i ôl-ddyddio i fis Ionawr) yn cymryd swm sylweddol o'r tanwariant hwnnw.

8.3. Ystyriwyd y dylai'r gyllideb gyfredol fod yn ddigon i gwmpasu unrhyw wariant ychwanegol yn deillio o ymateb y Comisiwn i ofynion pandemig COVID-19.

## 9. Cyfrifon Blynyddol Drafft

9.1. Ystyriwyd yr adroddiad gan y RhC, dyddiedig 23 Mehefin 2020.

9.2. **Cytunwyd** ar yr adroddiad, yn amodol ar rai mân newidiadau, a fydd yn cael eu hanfon at y RhC drwy'r e-bost cyn i'r fersiwn derfynol gael ei chyflwyno gerbron cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ar 27 Gorffennaf.

9.3. **Cytunwyd** y byddai'r PW yn darllen drwy'r adroddiad am y tro olaf.

## 10. Trefniadau Parhad Busnes Cyfredol

10.1. Rhoddodd y PW ddiweddariad llafar cryno ar y trefniadau gwaith cyfredol.

10.2. **Nodwyd** mai hon yw'r drydedd wythnos ers ailagor y swyddfa. Mae'r amserlen yn gweithio ac mae amserlen mis Gorffennaf newydd gael ei chyhoeddi. Nid oes mwy na phum aelod staff yn y swyddfa ar unrhyw adeg, ac mae lleoedd parcio ar gael i'r staff sydd eu hangen.

## 11. Calendr Digwyddiadau

11.1. **Nodwyd** cynnwys y Calendr.

11.2. **Cytunwyd** i ddiweddaru'r Calendr â dyddiadau cyfarfodydd y Comisiwn a oedd wedi'u haildrefnu.

## 12. Unrhyw fater perthnasol arall

12.1. Cafwyd trafodaeth fer am y trefniadau arlwyo ar gyfer cyfarfodydd diwrnod cyfan yn y dyfodol. Cynigiodd y PW, a chytunwyd, y byddai pecynnau cinio unigol yn cael eu prynu gan gyflenwyr lleol.

## 13. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 05 Awst 2020